Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Eirlys Thomas**

**Caerfyrddin**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Mawrth 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus ac yn cyfathrebu'n hyderus â'i gilydd a gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau treulio amser yng nghartref y gwarchodwr plant ac yn meithrin cydberthnasau cryf. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd addas.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith. Mae'n dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant ac yn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y plant. Mae'n darparu amgylchedd dan do ac awyr agored addas i'r plant sy'n mynychu. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o adnoddau ar gyfer pob oedran a cham datblygu.

Mae arferion a pholisïau'r gwarchodwr plant yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau agos â'r rhieni ac wedi meithrin partneriaethau â'r cylch meithrin a'r ysgol leol drwy wasanaeth casglu dibynadwy.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau a chaiff eu hanghenion eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, a chaiff eu safbwyntiau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, pan roedd y plant yn pwyntio at lyfrau neu deganau, roedd y gwarchodwr plant yn ymateb i anghenion y plant drwy ddarparu'r adnoddau hynny. Mae'r plant yn symud yn rhydd o amgylch yr ardal chwarae dan do ac yn hapus wrth archwilio'r adnoddau a oedd yn eu galluogi i ddilyn ei diddordebau eu hunain.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn hyderus yng nghartref ac amgylchedd y gwarchodwr plant. Maent yn gyfarwydd â'r drefn hamddenol o ddydd i ddydd gan ei bod yn diwallu eu hanghenion unigol. Caiff y plant sy'n newydd i'r lleoliad gymorth i setlo a chynigir maldod a sicrwydd iddynt drwy gydol y dydd. Maent yn chwarae gyda'i gilydd yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth i un o'r plant agor llyfr jig-so, dangosodd y plant eraill ddiddordeb ynddo a helpu ei gilydd i osod y darnau jig-so ar bob tudalen. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau agos gyda'r gwarchodwr plant a'u ffrindiau. Maent yn gwenu wrth i'r gwarchodwr plant ddweud beth sy'n digwydd nesaf wrthynt, fel amser stori ac amser cinio. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod yr ymweliad arolygu, roedd y plant yn teimlo'n gyfforddus wrth roi adnoddau gwahanol i ni, gan ein gwahodd i gymryd rhan yn eu chwarae.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda yn gyson, ac yn cydweithredu ac yn ymgysylltu'n dda. Er enghraifft, pan fo'r plant yn cymryd diddordeb yn yr adnoddau fel y teganau cerddorol a'r ceffyl siglo bach, mae'r gwarchodwr plant yn ymateb drwy ofyn a ydynt yn dymuno canu neu eistedd a reidio. Mae'r plant yn ymateb yn hapus i ganeuon a gaiff eu canu gan y gwarchodwr plant ac yn ymuno â hi i ganu rhai geiriau. Maent yn ymgysylltu â'u chwarae ac yn mynegi mwynhad wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau fel yr adnoddau electronig a'r llythrennau magnetig ar yr îsl. Hefyd, mae'r plant yn cychwyn eu chwarae eu hunain gan fod yr adnoddau yn cael eu storio o fewn cyrraedd iddynt ar lefel addas. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn mwynhau chwarae gyda'r basgedi siopa a chasglu anifeiliaid fferm o amgylch yr ardal chwarae. Mae'r plant iau yn mwynhau cydberthynas agos â'r gwarchodwr plant ac yn arsylwi ar y plant hŷn.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran ac i fanteisio ar amrywiaeth o adnoddau sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau cwblhau posau, defnyddio adnoddau byd bach a'r blwch ar thema ysbyty. Maent yn cymryd eu hamser wrth ymgymryd â'r gweithgareddau o'u dewis heb gael eu brysio. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau ac yn gwenu wrth gyfri'r siapiau wrth chwarae gyda'r didolwr siapiau. Mae'r plant iau yn mwynhau eistedd gyda'r gwarchodwr plant i gwblhau posau neu edrych ar lyfrau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Mae'r plant hŷn yn cwblhau tasgau toiled, gan olchi a sychu eu dwylo heb gymorth. Mae'r plant hefyd yn mwynhau meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn ystod amseroedd bwyd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn deall amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant, ac yn eu rhoi ar waith. Mae'n sicrhau ei bod wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac yn wybodus am y gweithdrefnau a'r gofynion diogelu cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn gwisgo ac yn defnyddio adnoddau priodol wrth newid cewynnau'r plant. Mae'n sgwrsio â nhw drwy gydol y prosesau hyn ac yn ystyried anghenion y plant mewn modd gofalgar. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o anghenion meddygol y plant ac yn sicrhau ei bod wedi cael caniatâd ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Caiff y caniatadau hyn eu cadw yn y cofnodion. Mae'n cadw cofnodion damweiniau a digwyddiadau, a chaiff y rhain eu llofnodi gan y gwarchodwr plant a'r rhieni i gydnabod bod y wybodaeth wedi cael ei rhannu. Mae'r gwarchodwr plant yn wybodus am alergeddau'r plant ac yn gwbl ymwybodol o'u hanghenion unigol, yn enwedig o ran prydau bwyd a gweithgareddau fel pobi. Mae'n frwdfrydig am y bwyd mae'n ei ddarparu ac yn paratoi prydau ffres a maethlon bob dydd. Gwelsom y plant yn mwynhau stiw cyw iâr cartref a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym am y dewisiadau y mae'n eu cynnig yn ystod amser brecwast a the. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod dŵr a llaeth ffres ar gael drwy gydol y dydd.

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gynnes ac yn gyfarwydd, yn dangos caredigrwydd a pharch. Mae wedi meithrin cydberthnasau agos â'r plant ac yn ymgysylltu â nhw mewn modd sy'n sicrhau amgylchedd dysgu hamddenol a chyfforddus. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cefnogi anghenion unigol y plant. Er enghraifft, yn ystod amser llaeth, mae'n sicrhau cyswllt agos ac yn rhoi sicrwydd i blentyn wrth roi cymorth ac anogaeth i'r plant eraill wrth iddynt chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn sgwrsio ac yn canu drwy gydol y dydd. O ganlyniad, mae'r plant yn clywed rhyngweithio cadarnhaol a gofalgar yn gyson.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau ac yn sicrhau ei bod yn diwallu eu hanghenion ac yn dilyn eu diddordebau. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy ryngweithio, canu caneuon a darllen straeon yn gyson drwy gydol y dydd. Mae'n sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i fwynhau'r ardd fawr a chymryd rhan mewn gweithgareddau fel plannu a thyfu ffrwythau a llysiau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei chartref a'r amgylchedd naturiol o'i amgylch yn darparu tirwedd ychwanegol i ddysgu, fel gweld a gwylio'r anifeiliaid fferm gerllaw.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'n cynnig amgylchedd cartrefol ac yn dilyn arferion hylendid addas. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod pob un o'r plant yn ymgymryd ag ymarferion tân ar ddyddiau ac amseroedd gwahanol ac yn cadw cofnod o hyn. Mae'n adolygu'r asesiadau risg perthnasol pan fo angen. Mae'r gwarchodwr plant yn diweddaru'r dogfennau perthnasol ar gyfer yr amgylchedd yn ogystal â'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn modd amserol. Mae'n sicrhau bod cymarebau'n cael eu cynnal ac yn cofnodi presenoldeb y plant yn gywir. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw blwch cymorth cyntaf ar y safle yn ogystal â chofnod o'r holl ymwelwyr â'r lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig ardal chwarae dan do yn ardal fyw y teulu. Mae'r ardal hon yn arwain at ardal y gegin lle y gall y plant hŷn eistedd wrth y bwrdd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac i fwyta prydau bwyd, ac mae cadeiriau uchel ar gael i'r plant iau fwynhau amseroedd bwyd gyda'i gilydd. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig cyfleusterau toiled gerllaw y gall y plant hŷn eu defnyddio'n annibynnol. Yn yr ardal awyr agored, mae'r gwarchodwr plant yn cynnig cyfleoedd chwarae i'r plant yn yr ardd fawr gaeedig. Mae'n sicrhau ei bod yn goruchwylio'r plant bob amser ac yn deall lefelau risg. Mae gardd ddiogel y gwarchodwr plant yn darparu cyfleoedd dysgu pellach i'r plant gydag amrywiaeth o ardaloedd chwarae ac ardaloedd picnic iddynt eistedd i fwynhau byrbrydau yn yr awyr agored. Mae ei hardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn cynnwys cyfarpar sy'n addas i oedran y plant, fel llithrennau, cyfarpar chwarae dŵr, tŷ chwarae a theganau reidio. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn darparu ardal fawr o fewn amgylchedd diogel yr ardd lle y gall y plant ddysgu am lysiau a ffrwythau sy'n tyfu yn y pridd, planhigion ffrwythau a choed afalau.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r adnoddau ar gael i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi casglu amrywiaeth gynhwysfawr o deganau sy'n addas ar gyfer oedran y plant dros nifer o flynyddoedd ac mae'r plant yn eu mwynhau. Fodd bynnag, ar ddiwrnod ein hymweliad, nid oedd llawer o le clir ar y llawr yn yr ardal fyw gan fod amrywiaeth fawr o deganau yn cael eu storio yn yr un ardal. Yn yr un modd, mae'r ardd yn cynnig amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a chydnabu'r gwarchodwr plant od angen rhoi trefn ar nifer o'r adnoddau chwarae awyr agored er mwyn symud eitemau nad ydynt yn cael eu defnyddio neu sydd wedi torri. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael digon o brofiadau bywyd i ddysgu am eu cymuned leol, fel ymweliadau â'r siop leol a'r gerddi lleol yn ogystal â'r gymuned ffermio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddi wasanaeth gwarchod plant sefydledig, gyda blynyddoedd lawer o brofiad ac mae'n wybodus am ei chyfrifoldebau rheoliadol. Gwnaeth y gwarchodwr plant ddiweddaru rhai materion yn ystod yr arolygiad, fel ei datganiad o ddiben a'r manylion am ei chynorthwywyr gwarchod plant newydd. Mae'n sicrhau ei bod yn bodloni'r gofynion yn gyson, fel gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a thystysgrifau dilys eraill. Mae gan y gwarchodwr plant system ffeilio sefydledig, lle y caiff dogfennaeth ei storio gyda'i gilydd yn gyfrinachol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod cofnodion y plant yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a bod yr holl ganiatadau gofynnol yn cael eu rhoi gan y rhieni. Mae'r holl ddogfennau ar drafnidiaeth a cherbydau yn ddilys.

Caiff adolygiad o ansawdd y gofal y gwarchodwr plant ei gyflwyno'n flynyddol, ac mae'n cynnwys amlinelliad o'r ffordd y mae'n ymateb i safbwyntiau'r rhieni a'r plant yn agored er mwyn gwneud gwelliannau parhaus i'r lleoliad. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y set ddiweddaraf o holiaduron yr oedd y rhieni wedi eu dychwelyd a oedd yn canmol y gwarchodwr plant am ei chroeso cynnes bob dydd, ei bwyd cartref a'i dull cyfathrebu parhaus gyda'r teuluoedd sy'n defnyddio ei lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o'i chyflawniadau o ran ei hyfforddiant personol sy'n dangos ei hymroddiad i'w datblygiad proffesiynol ei hun. Mae wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol i wella ansawdd ei gofal, fel hyfforddiant ar chwarae arbrofol. Mae'n sicrhau bod yr hyfforddiant gorfodol yn cael ei gynnal, fel hyfforddiant ar Ddiogelwch Bwyd, Diogelu a Chymorth Cyntaf Pediatrig.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau â'r rhieni dros sawl blwyddyn. Mae wedi meithrin partneriaethau â'r ysgol leol a'r cylch meithrin gerllaw ac yn cynnig gwasanaeth casglu dibynadwy. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio teithiau o amgylch yr ardal leol, gan sicrhau bod y plant yn cael profiadau cynnar y byddent yn eu cofio y tu allan i'w chartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod yr ardal chwarae dan do yn drefnus er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn rhoi cyfle i'r plant symud yn rhydd a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau dan eu harweiniad nhw sydd wedi'u gwasgaru'n effeithiol ac y caiff unrhyw adnoddau dros ben eu storio i ffwrdd o'r ardal. |
| Safon 23 - Cyfarpar | Sicrhau bod unrhyw gyfarpar ac adnoddau sydd wedi torri neu nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael eu symud pan fo angen. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/11/2024